



ARDRETHU ANNOMESTIG
RHESTRAU ARDRETHU 2023

Canllaw i'n
HYSBYSIAD PENDERFYNU

Nid yw'r canllaw hwn yn cwmpasu pob agwedd o'r broses apelio. Nid oes rhaid i ni ddilyn popeth yn y canllaw hwn, ac nid yw'n effeithio ar sut rydym ni'n defnyddio'r deddfau neu'r rheoliadau perthnasol. Byddwn yn ymateb i unrhyw gais rhesymol gennych chi am gyngor neu eglurhad.

BETH YW HYSBYSIAD PENDERFYNU?

Mae'r Hysbysiad Penderfynu yn rhoi gwybod i chi am benderfyniad y tribiwnlys ac yn rhoi'r rhesymau am y penderfyniad.

APELAU ARDRETHU ANNOMESTIG

Pan fydd y tribiwnlys wedi gorchymyn newid y Rhestr Ardrethu, rhaid i Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) gydymffurfio â'r gorchymyn hwnnw o fewn 14 diwrnod. Unwaith iddi wneud hynny, mae ganddi 28 diwrnod arall i roi gwybod i'r Cyngor/Awdurdod Bilio (AB) am y newid. Wedyn, os yw'n berthnasol, bydd yr AB yn ailasesu'r ardrethi sy'n daladwy.

APELAU HYSBYSIAD CWBLHAU

Os bydd newid i'r diwrnod cwblhau wedi'i orchymyn, rhoddir gwybod i'r VOA a'r AB am y penderfyniad hwn a bydd pob un yn gweithredu yn ôl yr angen.

APELAU HYSBYSIAD COSB

Os bydd y tribiwnlys yn gorchymyn i'r Swyddog Prisio (SP) ostwng neu ddychwelyd y gosb, bydd y SP yn gweithredu yn ôl yr angen.

A ALL Y TRIBIWNLYS ADOLYGU'R PENDERFYNIAD?

Gall y tribiwnlys ystyried cais i adolygu ei benderfyniad am y rhesymau canlynol **yn unig**:

- gwnaed y penderfyniad yn anghywir o ganlyniad i wall clerigol;
- ni fynychodd parti y gwrandawriad a gall ddangos rheswm da pam na wnaeth hynny;
- effeithir ar y penderfyniad gan benderfyniad yr Uchel Lys neu Siambr Diroedd yr Uwch Dribiwnlys o ran yr eiddo sy'n destun penderfyniad y tribiwnlys; neu
- cafwyd rhyw afreoleidd-dra gweithdrefnol yn y gweithrediadau.
- Mewn **Apelau Hysbysiad Cwblhau yn unig** mae rheswm ychwanegol sy'n caniatáu i dystiolaeth newydd gael ei hystyried pan fydd ar gael ac na ellid bod wedi ei rhagweld na chael gafael arni yn rhesymol yn gynt.

Os dymunwch wneud cais am adolygiad ar unrhyw un o'r seiliau uchod, dylech ysgrifennu at glerc y tribiwnlys yn nodi'r rhesymau am adolygiad. Gellir gwrthod cais am adolygiad os nad yw'n cael ei wneud o fewn **28 diwrnod** i'r dyddiad pan roddwyd gwybod am y penderfyniad i'r partïon.

A ALLAF APELIO YN ERBYN Y PENDERFYNIAD?

Caiff unrhyw berson a ymddangosodd neu a gynrychiolwyd yn y gwrandawriad (neu a apeliodd trwy gynrychiolaeth ysgrifenedig ffurfiol o dan y Rheoliadau) ac sy'n anhapus â'r penderfyniad, apelio trwy hysbysiad mewn ysgrifen i Siambr Diroedd yr Uwch Dribiwnlys, o fewn **28 diwrnod** i'r dyddiad pan roddir gwybod am y penderfyniad neu'r gorchymyn.

Dylid anfon Hysbysiad Apêl yn y ffurf a ragnodir gan Reolau'r Siambr Diroedd i'r:

Uwch Dribiwnlys (Siambr Diroedd)
5ed Llawr, Rolls Building
7 Rolls Buildings
Fetter Lane
Llundain
EC4A 1NL

Rhif Ffôn: 020 7612 9710
Rhif Ffacs: 020 7612 9723

Ebost: lands@justice.gov.uk
Gwefan: www.gov.uk/appeal-upper-tribunal-lands

Mae'r ffurflen ar gael ar wefan y Siambr Diroedd: <https://www.gov.uk/government/publications/form-t385-notice-of-appeal-against-a-decision-of-a-valuation-tribunal>

Dylech fod yn ymwybodol y gall y Siambr Diroedd ddyfarnu costau yn erbyn parti aflwyddiannus. Mae'n bosibl, felly, y byddech am ystyried cael cyngor proffesiynol cyn apelio i'r Siambr Diroedd.

Ni ellir apelio penderfyniadau o ran cosbau ac mae penderfyniad y tribiwnlys yn derfynol, er efallai bod modd i chi apelio i ofyn i'r Uchel Lys gynnal adolygiad barnwrol os ydych yn credu bod y tribiwnlys wedi gweithredu y tu allan i'w bwerau neu heb weithredu yn gywir yn y gwrandawriad.

A GAF I GWYNO AM Y GWASANAETH A DDARPARWYD?

Os oes gennych gŵyn am sut mae gweinyddiaeth TPC wedi ymdrin â'ch achos, dylech ysgrifennu at glerc y tribiwnlys yn y lle cyntaf, i'r cyfeiriad a ddangosir ar ein hysbysiadau. Cewch wybod am drefn gwyno lawn y Tribiwnlys yn ateb y clerc.

Cewch ddefnyddio'r broses hon i wneud cwyn am y modd yr ymdriniwyd â'ch apêl yn weinyddol gan y Tribiwnlys yn unig. Caiff apêl bellach yn erbyn y penderfyniad ei gwneud i Siambr Diroedd yr Uwch Dribiwnlys.

GWYBODAETH BELLACH

Ein cofnodion

Yn ôl y gyfraith, caiff unrhyw un ymweld â swyddfa'r Tribiwnlys i edrych ar gopïau o agendâu a phenderfyniadau a wnaed gan y Tribiwnlys yn y chwe blynedd diwethaf. Rhestrau o apelau yw'r agendâu y rhoddwyd dyddiad gwrandawriad iddynt.

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am TPC a'i gyhoeddiadau ar ein gwefan:
www.tribiwnlysprisio.cymru

Mae hefyd yn cysylltu â phorth lle gallwch weld ein rhestrau a phenderfyniadau apêl ar-lein.

Ein swyddfa

Tribiwnlys Prasio Cymru
22 Gold Tops
CASNEWYDD
NP20 4PG

Ffôn: 01633 255003

E-bost: gohebiaeth@tribiwnlysprasio.cymru